



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CYNLLUN CYDRADDOLDEB

2024 | 2028

www.tancgc.gov.uk/cym/



Rhagair

Rydw i'n falch o gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n ceisio bodloni'r gofynion deddfwriaethol yn ogystal ag ysbryd ein dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod y cynllun yw amlinellu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod Tân a'r Gwasanaeth i hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws ein holl bolisiau, arferion a gweithdrefnau, a nodi sut rydym yn anelu at gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn elfennau hanfodol ac anhepgor o waith y Gwasanaeth. Rydym yn ymdrechu i ddeall ein cymunedau'n well a lleihau'r risg ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed, trwy adeiladu Gwasanaeth sy'n gwbl gynhwysol ac yn wirioneddol gynrychioliadol.

Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn dileu gwahaniaethu a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael cyfle cyfartal. Rydw i'n credu y byddwn ni

Roger Thomas

Prif Swyddog Tân

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar y cynllun hwn, o ran ei gynnwys neu unrhyw beth sydd heb fod yn ddigon eglur am y gwaith rydyn ni'n bwriadu ei wneud.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu os hoffech chi wybod mwy am yr amcanion a gynhwysir yn y Cynllun hwn, cysylltwch â:

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Pencadlys y Gwasanaeth, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP

Ffôn: 01267 226839 | **E-bost:** humanresources@mawwfire.gov.uk

Mae'r Cynllun hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'n bosib ei gael mewn fformatau ac ieithoedd eraill hefyd. Os hoffech chi gael copi o'r Cynllun hwn mewn iaith neu fformat arall, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol a'r Adroddiadau Cydraddoldeb Blyneddol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan, neu mae'n bosib gofyn am gopi caled ym mha bynnag fformat

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth	6
Ein Gweledigaeth	7
Sut wnaethom ni ddatblygu ein hamcanion?	8
Sut y byddwn ni'n cyflawni ac yn monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol?	9
Amcan 1	10
Camau Gweithredu	
Mesur Llwyddiant	
Amcan 2	11
Camau Gweithredu	
Mesur Llwyddiant	
Amcan 3	12
Camau Gweithredu	
Mesur Llwyddiant	
Sut i Gysylltu â Ni	14

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'n fras pa batrwm gweithredu y mae'r Gwasanaeth am ei ddefnyddio o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y gwaith, rhwng 01 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2028. Mae'n crynhoi'r gwaith parhaus tuag at ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth wraidd holl weithgareddau gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae'n ceisio atgyfnerthu'r cynnydd sylweddol a gyflawnwyd eisoes yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac adeiladu arno.

Rydym yn cydnabod bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhleth trwy bob agwedd ar y Gwasanaeth, a'u bod o'r pwys mwyaf i ni fel cyflogwr yn ein gweithgarwch darparu gwasanaethau sydd â'u golygon tuag allan, yn ogystal â'n cyfrifoldebau sydd â'u golygon tuag i mewn. Nid yw ein hymdrechion i wneud ein gweithlu yn fwy amrywiol a dod yn fwy cynhwysol yn digwydd ar eu pennau eu hunain; maent yn rhan annatod o'r broses o sicrhau newid diwylliannol ehangach ledled y Gwasanaeth cyfan – ac mae ein gweledigaeth, ein blaenoriaethau strategol a'n strategaethau sefydliadol yn cefnogi hynny.

Fframwaith Cyfreithiol a Dyletswydd Gyhoeddus

Deddf Cydraddoldeb 2010 yw'r darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n sail i'r strategaeth hon. Mae'n crynhoi cyfres o ddyletswyddau sydd wedi'u bwriadu i amddiffyn ein gweithwyr a'n defnyddwyr gwasanaeth rhag unrhyw fath o wahaniaethu. Ategir y dyletswyddau hyn ymhellach gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.


I grynhoi, mae'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt;
- Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:
 - Dileu neu leihau'r anfanteision a ddiodefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
 - Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill;

Mae'r Ddeddf yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau. Mae'n nodi y gallai cydymffurfio â'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill.

Mae cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn rhwymedigaeth gyfreithiol, ond mae hefyd yn gwneud synnwyr busnes da. Credwn, os gallwn ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol ein cymunedau, y byddwn yn addasu ac yn siapio ein gwasanaethau mewn modd mwy effeithlon. At hynny, mae gweithlu sydd ag amgylchedd gwaith cefnogol yn fwy cynhyrchiol.

Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth



Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli wardiau unigol mewn chwe Awdurdod Unedol cyfansoddol, sy'n rhan o ardal ein gwasanaeth.

Yr Awdurdodau Unedol yw:



Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau yn ardal canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae'r sefydliad yn cyflogi dros 1,300 aelod o staff mewn amrywiol categorïau cyflogaeth, h.y. Staff Gweithredol, Staff Rheoli a Staff Cymorth, ac maent yn ymestyn dros ryw 4,500 milltir sgwâr – bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau yn ardaloedd arfordirol, trefol a gwledig y wlad.

Rôl yr Awdurdod Tân yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, yn arbennig Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 01 Hydref 2006;
- Cytuno ar y Cynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf yn ogystal â'r cyfraniad i'r awdurdodau cyfansoddol;
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Arweinir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân, sydd â rheolaeth gorfforaethol gyffredinol a chyfrifoldeb gweithredol dros y Gwasanaeth, ac ef hefyd yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL - CIPOLWGW.

Gweledigaeth

Darparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Ymddygiadau

Byddwn i gyd yn fodellau rôl cadarnhaol a byddwn yn ymddwyn yn broffesiynol trwy arddangos yr ymddygiadau canlynol

- Bod yn Atebol
- Bod yn Barchus
- Dangos Uniondebb
- Bod yn Ddiduedd
- Bod yn Foesegol

Galluogi

- Ein pobl
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Cadernid Ariannol
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Partneriaethau a Chydweithio

Amcanion Gwella a Llesiant

- Byddwn yn gwella ein diwylliantsefydliadol i sicrhau ein bod yngweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.
- Byddwn yn parhau i fod wedi ymrwymo iwneud gwelliannau i'n system DyletswyddAr Alwad i gefnogi anghenion eincymunedau.
- Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.
- Byddwn yn adolygu ac yn gweithredunewidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymatebi argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned.
- Byddwn yn yn rheolaidd ein strategaethauAtal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn(Diogelwch Tân Busnes) yn barhaus idargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.
- Byddwn yn ymgysylltu ac ynymgynghori â'n cymunedau i ddeallu disgwyliadau ohonom.
- Byddwn yn gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar achynaliadwy.
- Byddwn yn datblygu ein gofynion fflyd ac offer fel y gallwn ymateb yn effeithiol i argyfyngau.

Themâu

- Atal ac Amddiffyn
- Ymateb
- Corfforaethol



Sut wnaethom ni ddatblygu ein hamcanion?

Er mwyn datblygu'r amcanion cydraddoldeb, ymgysylltwyd â'n cymunedau a'n gweithlu a defnyddio gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, adroddiadau Llywodraeth Cymru, strategaethau mewnol a chanlyniadau ymarferion ymgysylltu â staff mewnol.

Dechreuwyd trwy gydweithio â rhai o'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, a hynny'n rhan o ymarfer ymgynghori aml-asiantaeth a oedd yn edrych ar y prif feysydd anghydraddoldeb a deimlir yn ein hardal.

Ochr yn ochr â chanlyniadau'r ymarfer hwnnw, buom yn edrych ar feysydd lle'r oeddem yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau o fewn y sefydliad, a hefyd ystyriwyd ymchwil allanol perthnasol ac arolygon mewnol, cyn mynd ati i gwblhau set o amcanion drafft.

Aethom ati i gynnal ymgynghoriad pellach ynghylch yr amcanion drafft hynny, gan wahodd ein gweithlu, rhanddeiliaid allweddol, sefydliadau partner a'r cyhoedd i gyfrannu, ac fe gynorthwyodd y canlyniadau hyn ni i aildrafftio a datblygu'r amcanion a gynhwysir yn y Cynllun hwn.



Sut y byddwn ni'n cyflawni ac yn monitro'r Cynllun Cydraddoldeb

Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol

Prif ddibenion Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yw cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Gwasanaeth i adrodd ar ei gynnydd wrth gyflawni'r Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol y mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn eu nodi.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus a gwmpesir o dan y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn llunio Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Yn ail, wrth baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol pedair blynedd, gall y sefydliad fod yn fodlon ei fod yn seilio ei waith o ddarparu Gwasanaeth ar ofynion a disgwyliadau'r cyhoedd, a gall graffu o bryd i'w gilydd ar y modd y mae'r Gwasanaeth yn bodloni ei ofynion.

Amcan 1 – Eiriolwyr dros Amrywiaeth a

Rydym eisiau creu amgylchedd gwaith lle mae pawb, waeth beth fo’u cefndir, yn teimlo bod croeso iddynt a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Byddwn yn sicrhau bod gan ein gweithwyr y sgiliau a’r wybodaeth angenrheidiol er mwyn bod yn eiriolwyr dros amrywiaeth a chynhwysiant, a sicrhau tegwch yn eu gwaith.

Camau

1. Gwneud yn siŵr bod pob gweithiwr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant gorfodol ynghylch trin pawb yn deg, bod yn gynhwysol a chroesawu gwahaniaethau.
2. Creu amgylchedd diogel a chroesawgar lle mae pobl yn teimlo’n gyfforddus wrth fynegi eu hunain.
3. Sylwi ar bryderon neu gwynion am degwch, amrywiaeth a chynhwysiant a gweithredu ar y pryderon/cwynion hynny.
4. Cryfhau ein cysylltiadau â’r bobl a’r sefydliadau sy’n ein hyfforddi er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn parhau i fod yn gyfredol ac yn cyd-fynd ag amrywiaeth ein cymunedau.

Sut y byddwn ni’n gwybod a ydym yn llwyddo

1. Byddwn yn gweld mwy o bobl yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn rhoi adborth er mwyn gwella hyfforddiant yn y dyfodol.
2. Bydd gennym dystiolaeth i ddangos bod gweithredoedd ac agweddau pobl yn newid o ran sut maen nhw’n mynegi eu hunain.
3. Byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy’n rhannu eu pryderon neu gwynion, a bydd gennym fwy o dystiolaeth i ddangos bod eu pryderon/cwynion wedi’u datrys mewn modd priodol.

Amcan 2 – Adeiladu gweithle amrywiol a deniadol lle mae cyfleoedd i dyfu

Ein nod yw cyflogi, meithrin a chadw tîm talentog, amrywiol ac amlieithog sy'n adlewyrchu'r cymunedau sy'n defnyddio ein gwasanaeth.

Camau

1. Edrych ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o hysbysebu ein cyfleoedd gwaith a'u cyflawni, fel eu bod yn cyrraedd amrywiaeth o bobl, gan gynnwys pobl o wahanol gefndiroedd.
2. Creu cyfleoedd ar gyfer interniaethau a phrentisiaethau, yn enwedig ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n dda.
3. Adolygu a gwella ein prosesau recriwtio a chyflogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr amrywiol.
4. Datblygu ein grwpiau gweithwyr sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth, a'u helpu i ehangu.

Sut y byddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo

1. Bydd pob hysbyseb swydd yn annog ceisiadau gan amrywiaeth o bobl.
2. Bydd mwy o ymgeiswyr o grwpiau nad ydynt yn y gorffennol wedi cael eu cynrychioli'n dda.
3. Bydd mwy o gyfleoedd i bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gael swyddi o fewn sefydliadau.
4. Derbyn mewnbwn gan grwpiau mewnol am bob rhan o'r sefydliad.

Amcan 3 – Sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio ein gwasanaethau a'n cyfleusterau

Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n cyfleusterau yn hygyrch ac yn gynhwysol i unrhyw un sydd angen eu defnyddio.

Camau

1. Gwirio bod ein ffrydiau ar-lein yn hawdd eu defnyddio i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.
2. Gwneud yn siŵr bod y bobl a'r grwpiau rydym yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â nhw yn cynrychioli ein cymunedau.
3. Chwilio am well ffyrdd o gasglu rhagor o wybodaeth am gefndiroedd amrywiol y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.
4. Gwneud newidiadau i'n cyfleusterau os oes angen, fel bod y rhai sydd angen eu defnyddio yn gallu gwneud hynny heb unrhyw broblemau.

Sut y byddwn ni'n gwybod a ydym yn llwyddo

1. Bydd mwy o bobl o'n cymunedau yn cymryd rhan.
2. Byddwn yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda grwpiau gwahanol yn ein cymunedau am y newidiadau rydym yn eu gwneud.
3. Byddwn yn cael mewnbwn ac yn gweithio gyda hyd yn oed mwy o bobl a sefydliadau.



CYNLLUN CYDRADDOLDEB

2024 | 2028

Cael rhagor o wybodaeth

I roi eich adborth, gallwch chi gysylltu â ni drwy ein gwefan www.tancgc.gov.uk/cym/, ein ffonio ni ar **0370 60 60 699** neu ysgrifennu atom ni ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

Neu, gallwch chi anfon e-bost at

Fersiynau Eraill

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill hefyd. Os hoffech chi gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys sain, cysylltwch â ni ar: **0370 60 60 699** neu e-bostiwch:

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy iaith a byddwn yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg a Saesneg.